Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygu monitro blynyddol ar:

# Goleg Priory De Cymru

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 20/06/2014**

## Cyd-destun

Mae Coleg Priory De Cymru yn darparu addysg ôl-ysgol i ryw 40 o ddysgwyr, rhwng 16 a 25 oed, sydd â syndrom Asperger.

Mae canolfan ddysgu Coleg Priory De Cymru wedi'i leoli ar dir campws Coleg Gwent ym Mhont-y-pŵl. Gall dysgwyr Coleg Priory De Cymru fanteisio ar ystod eang o gyfleusterau, gan gynnwys adeilad adeiladu eang a salonau gwallt a harddwch proffesiynol sy'n agored i'r cyhoedd. Mae bron pob un o ddysgwyr Coleg Priory De Cymru yn mynychu dosbarthiadau a ddarperir gan Goleg Gwent yn adeiladau'r prif gampws ac fe gânt gymorth yn ôl yr angen gan ganolfan ddysgu arbenigol Coleg Priory De Cymru.

Yn ychwanegol, mae Coleg Priory De Cymru yn cynnig nifer fach o gyrsiau penodol ar gyfer cyflogadwyedd, defnydd cymdeithasol o iaith, therapi celf a medrau byw yn annibynnol.

Caiff dysgwyr eu cynorthwyo gan dîm helaeth o weithwyr cymorth. Mae rheolwr y ganolfan wedi bod yn ei swydd am chwe mis.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

**Dyma yw cryfderau'r coleg:**

- mae'n darparu ardal dysgu a chymorth ag offer da iawn ac sy'n cael ei chynnal yn dda iawn ar gyfer dysgwyr;
- mae canolfan ddysgu Coleg Priory De Cymru mewn lleoliad canolog o fewn coleg prif ffrwd a gall dysgwyr fanteisio'n hawdd iawn ar ystod eang o gyfleusterau lle gallant ddatblygu eu medrau cymdeithasol;
- mae'r ganolfan ddysgu yn cynnig amgylchedd croesawgar iawn a digynnwrf lle mae dysgwyr yn goresgyn eu hanawsterau unigol ac yn magu hyder;
- mae rheolwr newydd y coleg yn darparu arweinyddiaeth gref iawn ac mae ganddo weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r coleg;
- mae gan y coleg ffocws clir ar baratoi dysgwyr ar gyfer dilyniant i ddysgu pellach neu gyflogaeth;
- mae ansawdd cadw cofnodion yn y coleg yn uchel iawn;
- caiff dogfennau'r coleg eu cyflwyno'n dda ac fe gaiff polisïau eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd; ac
- mae'r coleg wedi gwneud cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â bron pob un o'r argymhellion o'r ymweliad blaenorol.

## Meysydd i'w datblygu

**Dyma yw meysydd y coleg i'w datblygu:**

- er bod polisïau a gweithdrefnau'r coleg ar gyfer diogelu yn glir, wedi hen ennill eu plwyf ac yn cael eu deall gan bob un o'r staff, nid yw'r dogfennau sy'n ymwneud â gweithdrefnau penodol yn achos datgelu yn ddigon clir i bob un o'r staff allu eu dilyn yn hawdd;
- mae gan y coleg ystod eang o bolisïau clir, o ansawdd da sydd wedi'u hysgrifennu'n glir. Fodd bynnag, ychydig iawn ohonynt sy'n bolisïau ar y cyd ar gyfer Colegau Priory yng Ngogledd a De Cymru. Nid yw'r rhain yn ddigon penodol i fodloni anghenion amrywiol iawn pob coleg;
- mae'r adroddiad hunanarfarnu yn fanwl a chynhwysfawr. Fodd bynnag, mae'n rhy ddisgrifiadol mewn mannau ac nid yw'n canolbwyntio'n ddigon da ar feysydd i'w gwella. O ganlyniad, nid yw'n llywio'r cynllun datblygu ansawdd yn ddigon da; ac
- nid yw'r drefn o olrhain cynnydd dysgwyr yn ffurfiol ar gyrsiau galwedigaethol ac academaidd wedi'i datblygu ddigon. O ganlyniad, ni all y coleg fonitro cynnydd yn hawdd i sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni hyd eithaf eu gallu.

## Argymhellion

A1 Diwygio'r polisi diogelu i wneud gweithdrefnau yn glir ac yn hawdd i'w dilyn

A2 Sicrhau bod yr holl bolisïau yn benodol i'r coleg

A3 Gwneud yn siŵr bod yr adroddiad hunanasesu yn arfarnol ac yn nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu yn glir

A4 Datblygu cylch ansawdd cadarn lle mae hunanasesu yn llywio'r cynllun datblygu ansawdd yn llawn

A5 Sefydlu system ffurfiol i olrhain ac arfarnu cynnydd dysgwyr ar gyrsiau galwedigaethol ac academaidd

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygu blaenorol

**Argymhelliad 1: Gwneud yn siŵr bod swyddog amddiffyn plant dynodedig ar y safle yn y coleg ar bob adeg**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae gan y coleg swyddog diogelu dynodedig ac mae wedi penodi dirprwy swyddog i sicrhau bod rhywun yn gofalu am y safle ar bob adeg. Mae'r swyddog dynodedig a'r dirprwy swyddog wedi cael hyfforddiant cynhwysfawr i ymgymryd â'u rolau. Mae polisïau a gweithdrefnau ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant wedi hen ennill eu plwyf ac yn cael eu deall yn y coleg.

**Argymhelliad 2: Darparu addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr sy'n cynnwys addysg rhyw a pherthynas**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r coleg wedi datblygu rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol gynhwysfawr. Mae hyn yn cynnwys unedau achrededig ar gyfer addysg rhyw a pherthynas. Mae staff wedi cael hyfforddiant defnyddiol i gyflwyno'r rhaglen hon a chynorthwyo dysgwyr ar sail un i un lle mae angen.

**Argymhelliad 3: Parhau i gynyddu darpariaeth mewn medrau Cymraeg ac mewn gwybodaeth am ddiwylliant Cymru yng Ngholeg Priory**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Er nad yw hyn yn ofyniad statudol i'r coleg, maent wedi gwneud cynnydd da wrth gyflwyno dysgwyr i Gymraeg sylfaenol a darparu ymweliadau allanol ysgogol sy'n hyrwyddo diwylliant a gwerthoedd Cymreig. Mae dysgwyr yn elwa ar raglenni datblygu'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn y coleg prif ffrwd hefyd.

**Argymhelliad 4: Cofnodi a dadansoddi'r defnydd o'r ystafell dawel a thynnu'r clo**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r coleg wedi tynnu'r holl gloeon ar ddrws yr ystafell dawel ac mae hyn yn rhoi lle priodol i ddysgwyr y mae angen iddynt gael ychydig o amser ar eu pen eu hunain. Mae'r coleg yn cadw cofnodion priodol o'r defnydd o'r ystafell dawel sy'n cynnwys manylion am yr amser a dreulir yn yr ystafell gan ddysgwyr unigol, yr aelod o staff sy'n goruchwylio a'r rheswm dros ei defnyddio. Caiff y wybodaeth hon ei dadansoddi'n rheolaidd gan reolwyr i sicrhau bod dysgwyr yn cael cyngor, arweiniad a chymorth perthnasol, yn ôl yr angen.

**Argymhelliad 5**: **Sefydlu system integredig ar gyfer olrhain, cofnodi ac adrodd am gynnydd a chyflawniadau dysgwyr**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r coleg wedi gwneud cynnydd da wrth olrhain, cofnodi ac adrodd am gynnydd dysgwyr yn narpariaeth Coleg Priory De Cymru.  Mae hyn yn cynnwys cynnydd mewn perthynas â defnydd cymdeithasol o raglen iaith, addysg bersonol a chymdeithasol, medrau cyflogadwyedd a medrau byw yn annibynnol.

Ar hyn o bryd, mae Coleg Priory De Cymru yn cyfarfod yn rheolaidd gyda staff o Goleg Gwent i drafod cynnydd dysgwyr unigol a chynllunio'n effeithiol i fodloni anghenion unigol.  Mae cynlluniau ar waith i Goleg Priory De Cymru allu gweld cofnodion dysgwyr perthnasol o'r coleg prif ffrwd.  Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran datblygu'r cynlluniau hyn, ac mae'n rhy gynnar i weld yr effaith ar olrhain dysgwyr.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Coleg** | Coleg Priory De Cymru |
| **Rhif y coleg** | F0006005 |
| **Diben yr ymweliad** | Ymweliad Monitro Blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 26 a 27 Mawrth 2014 |
| **Perchennog** | Gwasanaethau Addysg Priory |
| **Staff** | Rheolwr Gwasanaeth/Pennaeth<br>Rheolwr y Coleg<br>Rheolwr Busnes<br>Uwch arweinydd tîm<br>Cydlynydd addysg x2<br>Tiwtor<br>Therapydd lleferydd ac iaith<br>Cwnselwr/therapydd celf<br>Arweinwyr sifft/cymorth dysgu x 3<br>Staff cymorth dysgu x 29 |
| **Nifer y dysgwyr** | 41 |
| **Darpariaeth** | Dydd (38 wythnos) |
| **Math o angen addysgol arbennig (AAA) y mae'r coleg yn darparu ar ei gyfer** | Anhwylder y Sbectrwm Awtistig (gan gynnwys Syndrom Asperger a chyflyrau cysylltiedig) |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | Ddim yn berthnasol |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 5 Rhagfyr 2012 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | Ddim yn berthnasol |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| **Arolygydd Cofnodol** | Gill Sims |
| **Arolygydd Tîm** | Caroline Rees |